# Adroddiad ar

# Plas Gogerddan Nursery

**Plas Gogerddan**
**Penrhyncoch**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3EB**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Plas Gogerddan Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Plas Gogerddan Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Gogerddan Childcare Ltd |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Emma Healy |
| Person â gofal | Emma Healy |
| Nifer y lleoedd | 58 |
| Amrediad oedran y plant | 0 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 13 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 13 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8 tan 6 Dydd Llun i Ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn ymdrechu'n sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Gorffennaf 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Medi 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/11/2024 |
| Mae'r lleoliad yn gyson wedi rhagori dros y blynyddoedd ac yn esiampl berffaith o sut mae cynnal a chadw safon uchel. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Parhau i weithredu eu harfer effeithiol iawn wrth gefnogi datblygiad, lles a dysgu'r plant.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â dysgu yn yr ardal goedwig i'w ledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae’r plant yn teimlo’n hapus a diogel iawn yn y lleoliad ac yn gwybod eu bod yn cael eu parchu gan bob ymarferydd. Mae ganddynt ymdeimlad cryf iawn o berthyn ac mae ganddynt lais arbennig o gryf o ran sut y maent eisiau defnyddio’r amgylchedd. Er enghraifft, gwnânt gyfraniad eithriadol at yr hyn maent am ddysgu a’r ffordd y maent yn chwarae. Maent yn dewis eu hadnoddau eu hunain yn annibynnol ac mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau chwarae creadigol. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio’n graff wrth ddefnyddio rhawiau i symud pridd o’r potiau blodau mewn i’r berfa a’i symud i’r ardal fwd yn yr ardd. Mae plant yn cyfleu eu hanghenion personol yn hynod o effeithiol o oed ifanc iawn, gan ddatblygu eu ffordd eu hunain o gyfathrebu gan ddefnyddio ystumiau effeithiol yn lle geiriau pan fo angen. Er enghraifft, mae bron bob un o'r plant ifanc yn gwneud penderfyniadau fel ymestyn am llyfr a’i basio at ymarferwr pan maent eisiau stori, cyn setlo ar eu côl. Y plant sy’n penderfynu ble maent am chwarae a phryd maent am wneud hynny, gan ddefnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored yn hynod effeithiol a chreadigol.

Mae plant o bob oed yn setlo'n arbennig o gyflym ar ddechrau bob sesiwn ac yn teimlo'n hollol hapus wrth chwarae'n hyderus ochr yn ochr â'u ffrindiau. Mae bron bob un yn mwynhau eu chwarae ac yn gwneud hynny’n llawn cyffro. Er enghraifft, mae grŵp o blant yn chwarae’n ddychmygus ar bontydd pren, cyn neidio i mewn i’r dŵr a dringo allan yn gyflym cyn daw y crocodeil.

Mae plant o bob oed yn rhyngweithio’n hynod effeithiol â'i gilydd ac ymarferwyr. Mae llawer yn arddangos caredigrwydd gwirionedd tuag at ei gilydd ac yn feddylgar o anghenion eraill. Er enghraifft, mae plentyn yn helpu ei ffrind i wisgo menig a het cyn mynd i’r goedwig. Mae gan y rhan fwyaf ddiddordeb brwd yn yr hyn mae eu ffrindiau yn ei wneud ac yn cynnig help iddynt. Er enghraifft, mae plentyn yn dal llaw ei ffrind wrth iddyn nhw gerdded gyda’i gilydd i fyny’r llethr llithrig o ddail gwlyb yn y goedwig, cyn dathlu cyrraedd y brig drwy wenu yn llawn cyffro. Mae nifer o’r plant yn hyderus ac yn chwilfrydig am bresenoldeb ymwelwyr gan holi am eu henwau a’u gwahodd i mewn i’w chwarae.

Mae bron bob plentyn yn weithgar ac yn dysgu’n effeithiol drwy chwarae. Maent yn chwilfrydig iawn ac yn arbrofi â diddordeb brwd yn y dŵr a’r mwd. Maent yn mwynhau cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau corfforol, fel cydbwyso wrth gerdded ar hyd planciau pren i gyrraedd yr ochor arall. Mae’r plant yn arddangos sgiliau datrys problemau da. Er enghraifft, mae plentyn yn ailfeddwl sut i wisgo trowsus gwlyb gan fod yr esgid ddim yn ffitio drwodd, ac yn dyfalbarhau a cheisio eto ac yn gwenu wedi llwyddo.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn dda iawn. Maent yn gweini bwyd i’w platiau eu hunain cyn pasio’r llwy weini at eu ffrindiau. Maent hefyd yn cymryd cyfrifoldeb arbennig o dda dros eu hylendid personol ac yn defnyddio’r tŷ bach yn annibynnol gydol y dydd ac yn golchi a sychu eu dwylo wedi gorffen.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd rhagorol o'u mannau cychwyn unigol ac yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol iawn wrth chwarae a dysgu. Maent yn ddysgwyr gwbl anturus, di-ofn a chwilfrydig.

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd cryf iawn wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr a phlant eraill ac yn ymateb yn hyderus wrth siarad ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau storiâu ac yn gwrando'n astud am gyfnodau estynedig. Maent yn gwybod sut i drin a thrafod llyfrau fel darllenwyr ac yn deall bod ystyr i'r geiriau a'r lluniau. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio llyfrau coginio i wneud gwaith ymchwil ar gyfer eu sesiynau coginio. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio geirfa benodol i ddisgrifio'r hyn maent yn ei wneud wrth chwarae.

Mae cyfleoedd amrywiol a niferus i blant ddatblygu eu medrau creu marciau. Mae bron bob plentyn yn defnyddio ystod eang o offer yn fedrus. Er enghraifft mae'r plant yn dod o hyd i bapur a phensil yn annibynnol ar gyfer creu rhestr o enwau'r plant. Mae rhan fwyaf o blant yn ymuno'n frwdfrydig ag amrywiaeth o ganeuon Cymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn eu harferion dyddiol, er enghraifft, wrth ateb y gofrestr neu wrth ddewis dŵr neu laeth amser byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth iddynt chwarae ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, wrth lenwi potiau gyda phridd, maent yn egluro os yw'r potyn yn llawn neu'n wag. Mae'r mwyafrif o blant yn cyfri i ddeg yn Saesneg ac yn Gymraeg. Er enghraifft, maent yn cyfri faint o blant sydd yn mynd i mewn trwy'r gât i'r goedwig gan ddefnyddio'r bysedd ar menig i'w helpu.

Mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau corfforol yn eithriadol o dda. Maent yn defnyddio ystod o offer awyr agored yn fentrus i wella'u medrau cydsymud a chydbwyso pan fyddant yn croesi rhwyd cargo yn hongian yn y goedwig neu'n cloddio yn yr ardd. Mae bron bob un ohonynt yn datblygu eu medrau modur mân yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ychwanegu cynhwysion wrth greu pitsa neu wrth ddefnyddio gefel i godi darnau o bren mân.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ystyried sut i ddatrys problemau ac yn dyfalbarhau â thasgau. Er enghraifft, wrth gael anhawster i wisgo dillad wrth ddŵr dros ei esgidiau maent yn ystyried tynnu ei esgidiau yn gyntaf cyn dyfalbarhau a'r dasg. Mae bron bob un ohonynt yn datblygu medrau creadigol cryf. Er enghraifft, maent yn creu lluniau tân gwyllt lliwgar a manwl gan ffrwydro blawd, paent a gliter.

Trwy ddefnyddio ystod eang o offer, mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau digidol yn rhagorol. Er enghraifft, maent yn defnyddio camerâu yn hyderus i dynnu ffotograffau o blant eraill wrth eu gwaith, ac yn defnyddio bwrdd dilyniannu ar gyfer gwisgo eu dillad ar gyfer chware gwlyb. Maent yn defnyddio cyfrifiadur i archebu llysiau a ffrwythau o'r fferm leol.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae ymarferwyr yn cefnogi iechyd a lles plant yn effeithiol iawn. Maent yn ymateb yn gydwybodol ac effeithiol iawn i amrywiaeth addas o weithgareddau dysgu proffesiynol a hynny'n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Maent yn rhoi'r polisïau ar waith yn hynod effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth ragorol mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am ddiogelwch plentyn ac yn gweithredu'n brydlon pan fo angen. Mae ymarferwyr yn rhoi sylw arbennig i bob agwedd ar hylendid. Maent yn annog plant i fwyta ac yfed yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ddyddiol. Maent yn sicrhau y caiff unrhyw alergeddau ac anghenion dietegol y plant eu cofnodi er mwyn sicrhau y gall bob un ohonynt fwynhau eu prydau bwyd yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion clir ac effeithiol ar yr hyn mae'r plant yn ei gyflawni'n ddyddiol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn gyson. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol. Maent ganddynt berthynas arbennig o agos gyda'r plant ac yn eu cyfarch mewn modd hapus a chariadus wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, gan roi digon o amser iddynt ymgartrefu a chwarae. Maent yn ymddwyn mewn modd meddylgar, hamddenol ac addfwyn yng nghwmni'r plant a bob amser yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn gadarnhaol ac mewn modd tyner a gofalgar. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cefnogi'r plant yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn llwyddiannus dros ben. Maent yn siarad â'r plant mewn modd sensitif ac yn eu canmol yn effeithiol am wneud eu gorau ac am lwyddo gyda'u tasgau. Mae hyn yn annog y plant i ddyfalbarhau â'u tasg am gyfnodau estynedig. Mae ymarferwyr yn cadw llygad barcud ar anghenion y plant. Er enghraifft, maent yn sylwi'n syth pan fo angen sychu eu trwyn, ac yn gofyn caniatâd y plentyn cyn eu helpu. Maent yn atgoffa'r plant o reolau syml, fel bod yn ofalus er mwyn peidio â thasgu dŵr dros eu ffrindiau a gwisgo ffedog er mwyn sicrhau na fyddant yn cael paent ar eu dillad. Maent yn rhyngweithio'n hynod gelfydd ac yn gwybod yn reddfol pryd i gamu'n ôl a rhoi cyfle i'r plant ddarganfod pethau drostynt eu hun. Mae hon yn nodwedd gref iawn o waith yr ymarferwyr.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn arbennig o effeithiol, gan ddefnyddio hiwmor ac anogaeth yn barhaus. Maent yn hynod fedrus wrth gynllunio'n ymatebol, gan ddilyn trywydd, diddordebau a syniadau'r plant yn effeithiol ym mhob gweithgaredd. Maent yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn dangos balchder ac angerdd wrth drafod cyflawniadau'r rheini y maent yn weithwyr allweddol iddynt. Un o gryfderau'r ymarferwyr yw'r modd y maent yn mynd i'r afael ag anghenion bob plentyn yn unigol, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ganddynt bartneriaeth gynhyrchiol iawn â rhieni. Maent yn trafod anghenion a chyflawniad eu plant gyda nhw'n rheolaidd er mwyn i'r naill a'r llall gaffael dealltwriaeth gadarn am anghenion y plant. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol iawn ar y gofal ac ar ddatblygiad y plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth hynod gadarn o ddatblygiad plant ac egwyddorion y cwricwlwm i blant bach. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gynllunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar syniadau'r plant a thrwy

hynny'n datblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd cynnar yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol er mwyn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol y plant. Maent yn gwybod yn union pa bryd sy'n addas iddynt gynnig helpu plant a phryd i annog annibyniaeth. Maent yn rhoi cyfleoedd naturiol, ysgogol a diddorol i blant ddatblygu eu chwilfrydedd mewn amgylchedd cyffrous, naturiol a chreadigol iawn. Er enghraifft, mae'r plant yn treulio amser yn ddyddiol yn y goedwig yn dringo, cloddio, coginio a chreu llochesi.

Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant gymryd risgiau priodol wrth chwarae yn y gwahanol ardaloedd, er enghraifft wrth ddefnyddio morthwyli daro hoelion mewn i bren, neu wrth gerdded ar hyd rhaff wedi clymu rhwng dwy goeden. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd. Wrth ganolbwyntio ar yr hyn mae'r plant yn ei wneud a'i ddweud, mae ymarferwyr yn dyfeisio tasgau cyffrous sy'n datblygu dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas..

Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth gan rieni am eu plant cyn iddynt gychwyn yn y lleoliad. Mae gan bob plentyn weithiwr allweddol sy'n cadw golwg manwl ar eu datblygiad ac yn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn adolygu datblygiad y plant yn rheolaidd ac yn trin a thrafod eu cynnydd ymysg eu gilydd. Mae hyn yn arfer hynod effeithiol, gan fod yr ymarferwyr yn adnabod anghenion a diddordebau'r plant yn drylwyr iawn Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y cam nesaf yn diwallu anghenion a diddordebau'r plant, gan gynnwys darparu cymorth ychwanegol, lle bo angen. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth gyson i'r rhieni ar yr hyn mae eu plant yn ei gyflawni yn ystod y dydd, ynghyd â'r cynnydd maent yn ei wneud mewn meysydd penodol. Maent yn annog rhieni i roi gwybod iddynt am unrhyw ddigwyddiadau penodol ym mywyd y plant.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus iawn. Maent yn datblygu gweithgareddau sy'n eu hannog i ddefnyddio'u chwilfrydedd a chanolbwyntio ar ryfeddodau'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft maent yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu am natur wrth arsylwi mwydod yn yr abwydfa neu archwilio gwreiddiau wrth blannu mefus. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio'n arbennig o dda ar annog gonestrwydd, tegwch, a pharch, gan sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd, eu hamgylchedd ac adnoddau, yn ofalgar. Maent yn annog y plant i ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn barhaus ac o ganlyniad, prin iawn yw'r gwrthdaro. Mae ymarferwyr yn annog y plant i helpu ei gilydd neu i gymryd tro yn ystod gweithgareddau.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r holl blant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn deall eu hanghenion datblygiad yn drylwyr. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am fywydau plant eraill yn y lleoliad a dathlu gwahanol arferion a chredoau yn ogystal â dysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru. Er enghraifft maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, ac yn ymweld â sioeau Cymreig.

## Yr amgylchedd: Rhagorol

Mae gan arweinwyr fesurau, polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da iawn y tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae arferion hylendid yn gyson dda, sy'n lleihau'r risgiau i iechyd bob un. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel trwy gwblhau a blaenoriaethu asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân hynod o effeithiol, ac maent yn eu hadolygu'n gyson. Maent yn ystyried risgiau pob gweithgaredd, fel yn yr ysgol goedwig â'i le tân agored mewn perthynas ag unrhyw beryglon posibl. Mae cymarebau rhwng ymarferwyr a phlant bob amser yn addas ym mhob ardal. Mae'r ardal allanol a'r ardal tu fewn yn ddiogel iawn ac yn darparu amrywiol fannau chwarae i'r plant, gan gynnwys rhai cysgodol pan fo'u hangen. Gan fod rhai o'r drysau'n agored i'r plant yn barhaus, a bod ganddynt y rhyddid i grwydro o un man i'r llall, mae arweinwyr yn sicrhau bod lefelau uchel o oruchwylio a chyfathrebu i sicrhau bod bob un yn ddiogel.

Mae rheolwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân a chroesawgar, ac mewn cyflwr arbennig o dda. Mae ystod eang o ddodrefn ac adnoddau eraill o ansawdd neilltuol ar gael o fewn cyrraedd y plant y tu mewn ac yn yr awyr agored, sy'n ysgogi eu diddordebau a'u dychymyg yn barhaus. Mae cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn cael eu hyrwyddo'n bwrpasol. Mae'r ardaloedd tu mewn yn lân, ac wedi eu haddurno mewn lliwiau niwtral. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd yn fwriadus , gan gynnig ystod eang o gyfleoedd pwrpasol ac ysgogol ar gyfer darparu profiadau dysgu cyfoethog i blant mewn gwahanol ystafelloedd, gan eu hannog i fod yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus.

Un o nodweddion arbennig y gwasanaeth yw'r ysgol goedwig, sy'n leoliad hyfryd a chyffrous mewn ardal o goetir, dafliad carreg o'r lleoliad. Ceir mynediad iddi trwy giât sy'n agor at ofod mawr, cysgodol sy'n cynnig amgylchedd dysgu cyfoethog a chyffrous o guddfannau, llochesi, adeiladwaith a thoiled compost caeëdig pwrpasol. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn ystyried pob agwedd ar ddiogelwch yr ardal yn ofalus iawn ac yn monitro hynny'n rheolaidd. Mae'r cyfleoedd rhagorol yma yn ysbrydoli chwilfrydedd ac yn hyrwyddo medrau'r plant yn llwyddiannus,

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd yn sbarduno dychymyg y plant ac yn cynnig profiadau amrywiol iawn iddynt. Er enghraifft, yn y goedwig mae'r plant yn medru cerdded yn droednoeth ar lwybr synhwyrol o dywod, cerrig man, rhisgl a dŵr i brofi wahanol gweadau. Mae'r plant hefyd yn cael cyfleoedd i goginio, adeiladu, celf a chrefft, rhifedd, chwarae dychmygus yn ogystal â man cysurus iddynt ymlacio ar adegau tawel, gan gynnwys hamog yn y coed a matiau cyffyrddus ar lawr y goedwig.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinwyr yn gosod lles plant yn ganolog i bopeth a wnânt. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad a maent yn ei rhannu gydag ymarferwyr, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'r lleoliad yn deall fod disgwyliadau uchel a bod y lleoliad yn anelu am y safonau uchaf ym mhob agwedd o'u gwaith.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir i rieni o'r hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig. Mae arweinwyr yn llwyddo i greu ethos ofalgar a chyfeillgar lle mae plant yn ffynnu ac yn cyrraedd eu potensial. Mae ffocws ar sicrhau fod blant yn magu hyder i arwain eu chwarae a'u dysgu mewn amgylchedd eithriadol o greadigol, naturiol a hapus. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o ymarferwyr a phlant. Maent yn arwain trwy esiampl ac yn cymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar fywyd y lleoliad. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig, eu bod yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn barhaus ac yn sicrhau bod pob agwedd o waith y lleoliad yn yn bodloni eu safonau uchel.

Rhoddir pwyslais cryf ar hyrwyddo diwylliant o ddiogelu a diogelwch yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn adolygu gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn gweithredu'n gyflym i wneud unrhyw welliannau a nodwyd. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel wrth benodi ymarferwyr newydd.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd rhagorol o grantiau sydd ar gael. Er enghraifft, buddsoddwyd cyllid gyflunio ardaloedd o fewn y lleoliad er lles ymarferwyr a phant ac i ddatblygu'r ardal goedwig. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o gyllid i gyflogi ymarferwyr ac i brynu adnoddau o safon uchel.

Un o gryfderau penodol y lleoliad yw ansawdd y gwaith tîm a'r cydweithio ymhlith ymarferwyr ac arweinwyr. Mae pob ymarferydd yn ymroi'n llwyr i brofiadau dysgu proffesiynol parhaus. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd o ansawdd uchel i ymarferwyr ddatblygu eu medrau ac ennill cymwysterau. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u chyfrifoldebau'n glir ac yn gweithredu'n hynod lwyddiannus mewn perthynas â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn lle hynod hapus lle mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau cryfion sydd o fudd mawr i'r plant. Mae ganddynt gysylltiadau cryf â rhieni ac yn eu hysbysu'n barhaus am brofiadau eu plentyn trwy ap cyfrifiadur. Mae arweinwyr yn bobl hawdd mynd atynt, yn gefnogol, ac yn awyddus i gydweithio â rhieni i sicrhau bod plant yn hapus ac yn ymgynefino'n dda. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol i gynorthwyo pontio ac yn cyd weithio'n agos gyda swyddog datblygu'r awdurdod lleol. Mae'r lleoliad yn elwa ar gysylltiadau agos â'r gymuned leol ac mae hyn yn helpu arweinwyr i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr ar gyfer y plant. Er enghraifft, mae'r plant yn ymweld â grŵp henoed, ac yn gwneud prosiectau ar y cyd fel gweu dillad ar gyfer dolis y lleoliad. Yn ogystal mae rhieni, ymarferwyr a phlant yn archebu llysiau a ffrwythau o'r fferm leol sydd yn defnyddio'r lleoliad fel canolbwynt dosbarthu. Maent yn defnyddio llysiau a gyfrannir gan rieni ac ymarferwyr i goginio cawl ar gyfer elusen sy'n helpu pobl ddifreintiedig yn y dref gyfagos.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2025